**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y BIL DIODDEFWYR A'R LLYSOEDD**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29.2 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a Llysoedd ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 7 Mai 2025 a gosodais LCM ar 20 Mai 2025.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar 21 Hydref yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Nid yw'r mwyafrif o'r gwelliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig, fodd bynnag, mae un gwelliant yn gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, fel y nodir ym mharagraffau 11 i 16 isod.

4. Gellir cael copi o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Adrodd yn: Victims and Courts Bill

**Amcan(ion) Polisi**

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

    a) Darparu pwerau newydd i farnwyr gosbi troseddwyr sy'n gwrthod bod yn bresennol i gael eu dedfrydu, gan gynnwys ystod o gosbau carchar yn ogystal â blynyddoedd ychwanegol ar eu dedfryd.
    b) Cyfyngu cyfrifoldeb rhieni yn awtomatig ar gyfer troseddwyr sy'n cael eu dedfrydu am drosedd cam-drin rhywiol difrifol yn erbyn eu plentyn eu hunain.
    c) Cryfhau pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr i sicrhau bod mwy o graffu ar y systemau sy'n cefnogi dioddefwyr.
    d) Rhoi sicrwydd i ddioddefwyr am y llwybrau sydd ar gael i dderbyn gwybodaeth ynghylch rhyddhau eu troseddwr.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd ar 20 Mai 2025, sy'n parhau'n gywir.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

7. Mae swyddogion wedi cael trafodaethau cynnar, cyson a chadarnhaol gyda swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Bil ddatblygu.

8. Ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddioddefwyr a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Merched, Alex Davies-Jones AS, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif

Chwip ar 7 Mai 2025 yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r holl fesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar adeg eu cyflwyno yn berthnasol ac yn gymwys i Gymru. Ysgrifennodd eto ar 21 Hydref 2025 i dynnu sylw at y gwelliannau.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) cyntaf**

9. Ar ôl adolygu'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, credaf fod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (SLCM) mewn perthynas â gwelliant NC14, a ddisgrifir isod.

10. Yn ogystal, ar ôl yr adolygiad hwnnw, credaf fod angen SLCM ar gyfer darpariaethau eraill cymal 3 i'r graddau y maent yn berthnasol i faterion datganoledig, yr wyf hefyd yn manylu arnynt isod.

**Gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

**Gwelliannau'r Cyfnod Adrodd - Gwelliant NC14**

11. Mae gwelliant NC14 yn ehangu cymal 3 o'r Bil (*Cyfyngu ar gyfrifoldeb rhieni troseddwyr rhyw penodol).* Mae cymal 3 yn creu cyfyngiad awtomatig ar arfer cyfrifoldeb rhieni ar gyfer troseddwyr sy'n cael eu dedfrydu i bedair blynedd neu fwy yn y carchar am drosedd cam-drin plant yn rhywiol 'difrifol' yn erbyn unrhyw blentyn.

12. Mae'r gwelliant i gymal 3 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer achosion lle mae troseddwr yn euog o dreisio ac mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn a gafodd ei feichiogi, neu a allai fod wedi'i feichiogi, o ganlyniad i'r trais hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i Lys y Goron hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol o fewn 30 diwrnod i'r diwrnod ar ôl i'r troseddwr gael ei ddedfrydu. Yna bydd gan yr awdurdod lleol chwe mis o'r diwrnod ar ôl iddynt gael eu hysbysu i ofyn am ganiatâd y fam ddioddefwr a gwneud cais i'r llys teulu (os derbynnir y caniatâd hwnnw).

13. Os rhoddir y caniatâd, bydd yr awdurdod lleol wedyn yn gwneud cais o fewn 30 diwrnod o'r diwrnod ar ôl cael y caniatâd i'r llys teulu i ystyried a ddylid gwneud unrhyw orchmynion er budd gorau'r plentyn. Gallai hyn gynnwys gorchymyn camau gwaharddedig sy'n cyfyngu ar arfer cyfrifoldeb rhieni neu unrhyw orchmynion eraill y mae'r llys yn ystyried eu bod yn angenrheidiol (o fewn eu pwerau) i amddiffyn lles y plentyn. O dan y ddau fesur hyn, gall rhiant (ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhieni) wneud cais i'r llys teulu i gael amrywio neu ryddhau'r gorchymyn camau gwaharddedig (p'un a gafodd ei wneud yn Llys y Goron neu yn y llys teulu).

14. Mae'r cymal hwn yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau datganoledig Cymru (awdurdodau lleol yng Nghymru) i ofyn am ganiatâd y dioddefwr (neu os yw wedi marw, person arall â chyfrifoldeb rhiant) cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gais i'r llys teulu ac wedyn hefyd i wneud y cais hwnnw i'r llys teulu i benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau datganoledig Cymru (awdurdodau lleol) i

wneud cais i'r llys am adolygiad o unrhyw orchymyn o'r fath os caiff y troseddwr ei gael yn ddieuog ar apêl. Mae'r mesur yn rhoi swyddogaethau neilltuedig i awdurdodau datganoledig Cymru ac felly'n gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Darpariaethau eraill - Cymal 3**

15. Mae Cymal 3 yn diwygio Deddf Plant 1989 i ehangu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid i Lys y Goron wneud gorchymyn camau gwaharddedig i gynnwys pan fo person yn euog o drosedd cam-drin plant yn rhywiol difrifol yn erbyn plentyn y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant drosto ac wedi cael ei ddedfrydu i ddedfryd o bedair blynedd neu fwy o garchar ar unwaith. Rhaid i'r gorchymyn camau gwaharddedig, sy'n orchymyn o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989, gael ei wneud mewn perthynas â phob plentyn y mae'r troseddwr yn dal cyfrifoldeb rhiant drosto. Mae Cymal 3 yn gosod dyletswyddau amrywiol ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig ac felly'n gwneud darpariaeth sy'n ystyried materion datganoledig.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

16. Pan ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddioddefwyr a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Merched, Alex Davies-Jones AS, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip am y tro cyntaf ar 7 Mai 2025, tynnodd y llythyr sylw at nifer o fesurau a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno a fyddai'n berthnasol ac yn gymwys i Gymru ac un cymal (cymal 7) yr oedd Llywodraeth y DU o'r farn ei fod yn gofyn am LCM. Nid oedd y llythyr hwn yn cynnwys cymal 3 fel un yr oedd gofyn cael LCM ar ei gyfer.

17. Ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddioddefwyr a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Merched, eto ar 21 Hydref 2025 i dynnu sylw at y gwelliannau i'w gwneud yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Roedd y llythyr hwn yn cyfeirio at welliant NC14, ynghyd ag asesiad Llywodraeth y DU fod angen LCM.

18. Rwyf yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gwelliant a restrir ym mharagraff 11. Maent o'r farn nad oes angen caniatâd mewn perthynas â darpariaeth a fydda ddim ond yn cael effaith fach iawn ar awdurdodau lleol ac sydd, yn eu barn nhw, yn addasiad bach i'r swyddogaethau presennol. Fodd bynnag, fy nadansoddiad o'r darpariaethau hynny yw eu bod yn gwneud darpariaeth sy'n ystyried materion datganoledig ac felly mae angen SLCM mewn perthynas â nhw.

19. Yn ogystal, yn dilyn fy nadansoddiad pellach o gymal 3, rwy'n gosod SLCM mewn perthynas ag ef i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymru ac felly'n gwneud darpariaeth sy'n ystyried materion datganoledig.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd**

20. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU gan eu bod yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl ac mae ein cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon gan y DU yn ei gwneud yn bosibl i amcanion polisi gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol.

**Goblygiadau ariannol**

21. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil hwn ar hyn o bryd.

**Casgliad**

22. Fel yr amlinellir uchod, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. O ran y ddarpariaeth yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn, rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**
**05 Tachwedd 2025**